**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 19eg Gorffennaf 2010 yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y.p.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir Y Fflint |
| Y Cyng. G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. G James | Cyngor Sir Y Fflint |
| Y Cyng. P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd); B Davies (Swyddog Monitro); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Griffiths (Uwch reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); B Millington (Dirprwy Reolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); G Jones (Rheolwr Cefnogaeth Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| C Everett | Clerc i'r Awdurdod |

1 DATGANIADAU O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10FED MAI 2010

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Mai yn gofnod gwir a chywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 8.5 - Peiriant ag ysgol ac esgynlawr (ALP) - Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod sesiwn friffio ar fater y Peiriant ag ysgol ac esgynlawr (ALP) wedi ei threfnu ar gyfer 3ydd Medi yn y Pencadlys. Er mai sesiwn ar gyfer Aelodau anweithredol yw hon yn bennaf, estynnwyd croeso i'r holl Aelodau fynychu.

3.2 10.2 - Prosiect Cyfalaf Wrecsam - Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wybod i'r Aelodau fod achos busnes amlinellol gorsaf deiran Wrecsam wedi ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Gweinidog. Fodd bynnag, nid oedd datblygiad pellach ar bryniant y tir.

4 RHAGOLYGON CYLLIDEBOL AR GYFER 2011-12

4.1 Dosbarthodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân gopi o lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Llywodraeth Leol Cymru ynghylch strategaeth arfaethedig ar gyllideb y flwyddyn nesaf ac roedd yn gofyn am ymateb gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n addas i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ymateb gan ddatgan nad yw'r grantiau y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eu derbyn yn ariannu gwasanaethau dewisol a bod y grantiau yn cael eu gwario ar ddyletswyddau statudol. Eglurodd y Prif Swyddog Tân fod y grantiau diogelwch tân cymunedol yn cael eu dosbarthu trwy Gymdeithas Prif Swyddogion Tân Cymru sydd yn sicrhau nad yw'r drefniadaeth yn feichus.

4.2 Aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân ymlaen i drafod yr adroddiad ar y Rhagolygon Cyllidebol a gyflwynwyd i'r Panel Gweithredol.

4.3 Y brif ffactor i'w bennu mewn perthnasedd â'r chwyddiant oedd y chwyddiant cyflog sydd yn anodd ei ragweld gan fod yn rhaid amcangyfrif ffigwr ym mis Hydref/Tachwedd er na benderfynir ar y codiad cyflog hyd fis Gorffennaf y flwyddyn ganlynol. Ffactorau chwyddiant eraill i'w hystyried oedd tanwydd a chostau ynni. Fodd bynnag, gan mai dim ond cyfran fechan o'n cyllid yw'r costau hyn dylid cwrdd â hwy drwy effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth ble bynnag y bo modd.

4.4 Gan fod gymaint o ansicrwydd, bydd yn anodd llunio cyllideb, felly argymhellwyd y dylai'r Panel Gweithredol sefydlu gweithgor bychan gan gynnwys un Aelod o bob Awdurdod Lleol. Bydd y gweithgor yn cwrdd yn rheolaidd dros y misoedd sydd i ddod er mwyn trafod y gyllideb a derbyn gwybodaeth newydd fel y bydd yn dod i'w meddiant.

4.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r pwysau ar y gyllideb a'r rhagolygon cyllidebol yn yr adroddiad; a**

**(ii) sefydlu gweithgor, sef Y Cynghorwyr S Frobisher, A M Jones, B Dunn, T Evans, T Roberts a W P Roberts, a fydd yn cwrdd yn rheolaidd dros y misoedd nesaf i ystyried pob opsiwn ariannol ac opsiynau gwasanaeth.**

5 FFURFLENNI YSTADEGAU BLYNYDDOL 2009/10

5.1 Cafodd yr Aelodau gyflwyniad byr ar y ffurflenni ystadegol gan Shân Morris. Roedd y cyflwyniad yn dangos sut yr oedd y ffurflenni ystadegol yn cael eu casglu a'u cyflwyno i'r Cynulliad. Mae gofyn cwblhau 90 ffurflen ystadegol sydd yn ymdrin â phob maes y Gwasanaeth. Casglir y ffigurau rhwng mis Ebrill a mis Mai ac yna cânt eu gwirio gan ystadegwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff y ffigurau statudol hefyd eu gwirio gan KMPG, yr archwilwyr allanol.

5.2 Yn dilyn cwblhau archwiliad, cadarnhawyd fod y ffigurau'n gywir ac nad oedd y Cynllun Gwella yn gofyn am unrhyw newidiadau. Bu i'r Aelodau longyfarch Shân a'r tîm ar y llwyddiant hwn.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y ffigurau perfformiad rhwng 1af Ebrill hyd 31ain Mawrth 2010 er gwybodaeth.

6.2 Roedd y canlynol yn haeddu sylw:

- Bu cynnydd bychan yn y ffigurau eilaidd
- Bu cynnydd bychan yn y tanau mewn eiddo annomestig, ac mae'r Gwasanaeth wrthi'n rhoi sylw pellach i hyn
- Bu cynnydd yn nifer y tanau mewn cartrefi lle nad oedd y larwm mwg wedi seinio - mae swyddogion yn dadansoddi'r canlyniadau hyn i weld os mai mater cymharu ystadegau rhwng y system newydd o Recordio Digwyddiadau (IRS) a'r system flaenorol Adroddiad Data Tân (FDR) neu os yw'r ffigurau yn adlewyrchu gwahaniaeth yn y math o gartrefi a fynychir.

6.3 Bu i'r Prif Swyddog Tân atgoffa'r Aelodau fod pump o bobl wedi marw mewn tanau ers mis Ebrill, yn bennaf y tri a fu farw yn Nhŷ'n y Gongl. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod hi wedi ymweld â man y digwyddiad yn Nhŷ'n y Gongl a'i bod wedi ysgrifennu llythyr at y Prif Swyddog Tân yn llongyfarch yr holl swyddogion a fynychodd ar eu proffesiynoldeb yn ystod y digwyddiad anodd hwn. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod y llythyr wedi ei anfon ymlaen i'r swyddogion perthnasol.

6.4 Holodd y Cyng. L W Davies am y tanau sydd wedi eu cyfyngu i un ystafell, cadarnhawyd y gellir priodoli hyn i'r ffaith fod mwy o bobl yn ymwybodol o sut i atal tân rhag lledaenu drwy gadw drysau ynghau, a hefyd oherwydd bod mwy o bobl yn gosod larymau mwg yn eu cartrefi sydd yn eu galluogi i rybuddio'r Gwasanaeth yn gynnar a'u galluogi i fynychu digwyddiadau yn gynt.

6.5 Holodd Y Cyng. G C Evans ynghylch llosgi dan reolaeth a llosgi ar diroedd sydd yn agos i ffatrïoedd a chanolfannau storio. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân fod y Tîm Deddfwriaethol a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn cydweithio i ymchwilio ymhellach i ddigwyddiadau ger ffatrïoedd. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn ar i bobl sydd yn dymuno llosgi yn eu gardd hysbysu'r Ystafell Reoli. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn darparu cyngor ar ddiogelwch, fodd bynnag, nid oes deddfwriaeth i ymdrin â'r maes yma.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 GORSAF DÂN GYMUNEDOL Y RHYL

7.1 Ymunodd Kevin Davies, Rheolwr yr Orsaf Dân Gymunedol, â'r cyfarfod.

7.2 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ar gynnydd Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl hyd yma.

Mae'r digwyddiadau yn yr orsaf yn cwrdd ag anghenion y gymuned ac maent wedi helpu'r Gwasanaeth lwyddo yn eu nodau a'u hamcanion gan ddiwallu'r achos busnes gwreiddiol. Unwaith y penderfynwyd atgyweirio'r orsaf a'i addasu'n orsaf dân gymunedol, cynhaliwyd diwrnod agored er mwyn ymgynghori â'r bobl leol a gweld beth fyddai'i disgwyliadau hwy mewn cyfleuster o'r fath.

7.3 Ariannwyd rhan o'r gost o oddeutu £2.5 miliwn gan grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae wedi bod yn ffordd effeithlon o ddefnyddio cyfleusterau gan fod aelodau o'r cyhoedd wedi cael cyfle i wneud defnydd o adnoddau'r orsaf a derbyn gwybodaeth ar ddiogelwch tân ar yr un pryd. Defnyddiwyd yr incwm a gynhyrchiwyd i dalu am gost rhedeg y cyfleuster. Mae modd i'r orsaf aros ar agor hyd 10 y.h os oes angen ac mae ar gael 7 niwrnod yr wythnos os yn angenrheidiol.

7.4 Mae tystiolaeth bendant fod yr orsaf yn llwyddiannus oherwydd niferoedd uchel yr atgyfeiriadau ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref. Fodd bynnag, yn ogystal â chofrestru ar gyfer Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref, mae pobl hefyd yn gwrando ar neges bwysig.

7.5 Bu i'r Cyng. P Jeffares longyfarch staff ar lwyddiant yr orsaf dân gymunedol a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol. Bu i'r Cadeirydd longyfarch Kevin Davies ar lwyddo i gael grwpiau i ddefnyddio'r orsaf a hyrwyddo'r orsaf yn lleol.

7.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd..**

8 ADRODDIAD MONITRO BWRDD YR IAITH GYMRAEG

8.1 Cyflwynwyd papur i'w gymeradwyo, Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2009-10, cyn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

8.2 Eglurodd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks bod yr adroddiad yn manylu'r cynnydd y mae'r Gwasanaeth wedi ei wneud wrth anelu at gwrdd â'r targedau a amlinellwyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2006-2009, sydd newydd ei ddiweddaru ar gyfer 2010-13.

8.3 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi dyfarnu grant i'r Gwasanaeth i annog siaradwyr Cymraeg wirfoddoli'n Hyrwyddwyr yr Iaith ymhob rhan o'r Gwasanaeth. Bydd yr Hyrwyddwyr yn helpu'r rheiny sy'n dymuno ymarfer eu Cymraeg neu sefyll eu profion iaith Gymraeg lefel 1 a 2. Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff lwyddo yn y prawf lefel 2 yn ogystal â'r rheiny sy'n dymuno cael eu dyrchafu i swydd uwch. Derbyniwyd grant ychwanegol i hyrwyddo ac annog cyfarfodydd Cymraeg/dwyieithog. Mae hyn eisoes wedi ei roi ar waith yng Ngwynedd.

8.4 Bu i'r Cyng. L W Davies longyfarch y Gwasanaeth am hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a mynnu fod yn rhaid i bob aelod newydd o staff neu'r rhai sy'n dymuno cael eu dyrchafu i swydd uwch lwyddo yn y prawf iaith lefel 2. Bu i'r Cyng. G C Evans longyfarch y Gwasanaeth yn ogystal ond roedd yn ei chael yn anodd credu mai dim ond tri o bobl yn ardaloedd Wrecsam a Sir y Fflint a

oedd wedi gofyn am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthnasedd â'r Cynllun Iaith Gymraeg; a**

**(ii) chymeradwyo Adroddiad Monitro 2009-10 cyn ei gyflwyno'n swyddogol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.**

9 RHYBUDDION TÂN DIANGEN WEDI EU HACHOSI GAN SYSTEMAU SYNHWYRO TÂN AWTOMATIG

9.1 Cyflwynwyd adroddiad i roi gorolwg i'r Aelodau o fodel Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Rhydychen ar ddelio gyda Rhybuddion Tân Diangen wedi eu hachosi gan Systemau Synhwyro Tân Awtomatig sydd yn cael eu monitro o bell.

9.2 Eglurodd yr Uwch Reolwr Tân fod model Swydd Rydychen wedi llwyddo i leihau nifer y galwadau gan Systemau Synhwyro Tân Awtomatig, ond cafwyd cynnydd yn nifer y galwadau 999 er y cafodd y mater hwn ei ddatrys yn gyflym yn dilyn ymyrraeth gan reolaeth leol.

9.3 Yng Ngogledd Cymru, mae nifer y rhybuddion diangen gan Systemau Synhwyro Tân Awtomatig wedi lleihau o ganlyniad i gydweithio gydag ysbytai lleol a phrifysgolion - y sefydliadau sydd yn cynhyrchu mwyafrif y rhybuddion diangen hyn. Er ei bod yn dda gweld gostyngiad, mae Systemau Synhwyro Tân Awtomatig yn parhau i wastraffu adnoddau prin ac atal y Gwasanaeth rhag mynychu digwyddiadau eraill. Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu tîm ymchwilio canolog i ymgyfarwyddo â rhai o'r sefydliadau gwaethaf fel y gellir datblygu cynllun i leihau nifer y rhybuddion diangen gan Systemau Synhwyro Tân Awtomatig.

9.4 Nodwyd bod swyddogion diogelwch tân yn siarad gyda phob myfyriwr newydd yn y Prifysgolion i dynnu eu sylw at y peryglon ac egluro beth ddylent ei wneud os digwydd tân.

9.5 Yn ôl yr adroddiad bu i'r Gwasanaeth fynychu 1,646 digwyddiad yn ymwneud â Systemau Synhwyro Tân Diangen a rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau fod pob digwyddiad wedi costio isafswm o £200 i'r Gwasanaeth. Felly, er ei bod yn dda gweld gostyngiad mae arian yn parhau i gael ei wastraffu yn mynychu digwyddiadau fel hyn.

9.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r gwelliannau yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf; a**

**(ii) y dylai'r Gwasanaeth barhau i weithio tuag at gynnal y gostyngiad.**